



Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales

# Cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol y Rhondda

Y prif flaenoriaethau a'r cyfleoedd, a nodwyd gan sefydliadau a'r gymuned (Awst 2016).



1. Cyflwyniad, cefndir a chyd-destun
2. Y Dull yn y Rhondda
3. Y cyfleoedd a'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol y Rhondda yn gynaliadwy
4. Dysgu, y camau nesaf a Chyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu Datganiadau Ardal
5. Crynodeb o brosiectau a gyflwynwyd drwy gyfrwng Treial y Rhondda
6. Cyfleoedd a syniadau a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad

Atodiad (astudiaethau achos o Dreial y Rhondda):

- 1. Astudiaeth achos: Llethrau Iach
- 2. Astudiaeth achos: Gweithio gyda phrosesau naturiol
- 3. Astudiaeth achos: Trosedd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol
- 4. Astudiaeth achos: Ymgysylltu â rhanddeiliaid

## 1 Cyflwyniad

Mae adnoddau naturiol Cymru yn darparu ein hanghenion sylfaenol; yr aer yr ydym yn ei anadlu, y dŵr a yfwn, a'r bwyd rydym yn ei fwyta. Maent yn rhoi egni, ffyniant a diogelwch i ni; maent yn ein hamddiffyn ac yn ein gwneud yn iachach a'n bywydau yn well.

Ond mae Cymru'n wynebu llawer o heriau, fel sicrhau ynni a chyflenwad o danwydd, creu swyddi ac incwm, ymdrin â thlodi ac anghydraddoldeb, ymdrin â bygythiadau newid yn yr hinsawdd a llifogydd, a gwella iechyd a lles pobl. Mae bodloni'r heriau hyn yn gofyn am syniadau ffres, ffordd newydd chwyldroadol o feddwl ac o wneud pethau. Mae angen i ni edrych am ffyrdd y gallai ein hadnoddau naturiol ddod â nifer o fanteision i bobl a natur, yn awr ac yn y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu eu gwydnwch. Mae amgylchedd iach a gwydn yn helpu i gynnal pobl a'n heconomi. Pan fydd ein hamgylchedd yn gweithio ar ei orau, mae cymdeithas yn gyffredinol yn ffynnu.

## Y cyfle

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gyda'i gilydd yn creu deddfwriaeth fodern ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Byddant yn ein helpu i ymdrin â'r heriau rydym yn eu hwynebu ac i fanteisio'n well ar y cyfleoedd posibl i Gymru. Mae Deddf yr Amgylchedd yn canolbwyntio ar greu gwydnwch yn ein hecosystemau a chydabod y manteision y maent yn eu darparu os byddwn yn eu rheoli mewn ffordd fwy doeth.



## Beth yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei ddiffinio yn Neddf yr Amgylchedd fel: "defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella gwydnwch ecosystemau a'r buddion a ddarperir ganddynt. Wrth wneud hynny, diwallu anghenion cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byddwn yn cymhwyso set benodol o egwyddorion wrth gyfrannu cymaint â phosibl at y nodau llesiant. Bydd yr egwyddorion a'r nodau llesiant yn newid y ffordd rydym yn gweithio.

## Treialon ar sail ardal

Er mwyn ein helpu i baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd, yn 2014 fe wnaethom sefydlu tri threial ar gyfer rheoli adnoddau naturiol i brofi beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio, ac yna fe wnaethom gymhwyso'r hyn a ddysgwyd ar draws ein sefydliad. Roedd y tri threial yn y Rhondda a Thawe yn Ne Cymru, a Dyfi yng Nghanolbarth Cymru. Cafodd yr ardaloedd hyn eu dewis i gynrychioli amrywiaeth o lefydd a diddordebau. Roedd pob treial yn seiliedig ar ddalgyrch, ond fe'i dewiswyd oherwydd ei amgylchiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol gwahanol.

Diben y treialon oedd:

- Ymchwilio beth mae rheoli adnoddau naturiol yn ei olygu o fewn cyd-destun lleol.
- Archwilio'r blaenoriaethau adnoddau naturiol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru, a ddisgrifir yn Natganiad Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru.
- Meddwl am sut rydym yn cymhwyso ein dyletswyddau newydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Rhoi gwybod am newidiadau i'r ffyrdd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd. Roedd y treialon yn gyfle i archwilio sut yr ydym yn cymhwyso'r egwyddorion yn ymarferol i roi trefn ar y ffordd o weithredu ein dyletswyddau newydd yn Neddf yr Amgylchedd.

## 2 Y Dull yn y Rhondda

Mae'r Rhondda wedi'i bendithio ag amgylchedd naturiol eithriadol ac mae'n enwog am ei threftadaeth ddiwydiannol a'i chymunedau cryf a chlos. Ond mae'r Rhondda hefyd yn rhannu'r ystod nodweddiadol o heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y gellir eu gweld ar draws Cymoedd De Cymru.



### Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned

Yn gynnar yn 2014, fe wnaethom ddechrau cyfarfod a gweithio gydag ystod eang o bartneriaid a phobl yn y Rhondda. Fe aethom ati yn fwriadol i gymryd dull agored i helpu i ymchwilio i ac adnabod yr heriau, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd allweddol yn yr ardal. Roeddem yn hyblyg ac yn barod i addasu, gan fanteisio ar gyfleoedd a rhoi cynnig ar syniadau newydd, ac fe wnaethom gynnwys pobl, partneriaid a busnesau lleol drwy gydol y treial i brofi syniadau, casglu tystiolaeth, a chytuno ar flaenoriaethau.

Fe wnaeth deialog onest, agored annog trafodaethau, rhannu gwybodaeth a syniadau creadigol a oedd yn fwy mewn cytgord â'r ardal, ac yn ein galluogi i adeiladu ein sylfaen dystiolaeth. Croesawyd y dull hwn gydag egni a brwdfrydedd mawr, ac roedd pobl yn awyddus i gymryd rhan a gweithio gyda ni.

Yn 2015, fe wnaethom ffurfioli'r dull gyda chyfres o weithdai (lluniau isod) i helpu i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y Rhondda. Gan weithio gyda hwylusydd annibynnol, pwrpas y gweithdai oedd dod ag ystod eang o bobl at ei gilydd (partneriaid, grwpiau cymunedol a thrigolion), a nodi'r prif heriau, blaenoriaethau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol y Rhondda yn gynaliadwy. Gellir gweld adroddiadau o'r digwyddiadau hyn [yma](#).



### Prosiectau

Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd cyllid gan Lywodraeth Cymru ei ddyrannu i'r tair ardal treial ar gyfer gweithgareddau / prosiectau sy'n dod â'r manteision ehangaf posibl, ac a helpodd i ddatblygu ein dealltwriaeth o agweddau ymarferol a gweithredol rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

Gan weithio gyda'n partneriaid yn y Rhondda, fe wnaethom gyflwyno nifer o brosiectau, gan gynnwys: taclo a lleihau maint y tanau gwyllt (y prosiect 'Llethrau Iach' ar y cyd); buddsoddi mewn seilwaith hamdden ar goetir Llanwynno a Chanolfan Awyr Agored Daerwynno; gweithio gyda natur i helpu i adfer yr amgylchedd dŵr naturiol yng Nghwm-parc (adfer mawndir); a hyfforddiant amgylcheddol i grwpiau cymunedol a mwy. Daeth y syniadau ar gyfer prosiectau o siarad gyda a gwrando ar ein partneriaid, a'n dull oedd cyflawni dysgu drwy gyflwyno'n weithredol ar lawr gwlad. Rhoddir mwy o fanylion am y prosiectau yn adran 5 isod, ac yn yr atodiadau.

## Diben y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r 5 blaenoriaeth a'r 2 egwyddor sylfaenol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol y Rhondda yn gynaliadwy. Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar ddwy flynedd o weithio gyda sefydliadau, grwpiau cymunedol a thrigolion yn yr ardal, casglu tystiolaeth helaeth a rhannu gwybodaeth.

Gan fod y gwaith yn rhagflaenu Deddf yr Amgylchedd (Cymru), mae'r ddogfen hon yn anstatudol ac nid yw'n Ddatganiad Ardal. Ond y mae'n darparu fframwaith lleol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sefydliadau, grwpiau cymunedol, busnesau lleol a phobl ei ddefnyddio a chyfeirio ato. Gellir ei ddefnyddio gan gymunedau a sefydliadau i weithio'n well gyda'i gilydd a darparu canlyniadau sy'n sicrhau manteision lluosog. Gall annog gwell cydweithio rhwng partneriaid drwy ganolbwyntio adnoddau ar gyfleoedd a nodwyd yn glir. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gefnogi cynigion lleol ac ar raddfa tirwedd am gyllid.

## Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar i'r cyhoedd a phartneriaid am eu hamser a'u cyfraniad gwerthfawr yn ystod y treial. Hoffem ddiolch i'r sefydliadau canlynol, grwpiau cymunedol ac unigolion am eu cyfraniad, eu cymorth a'u brwdfrydedd a'n helpodd ni i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer Rhondda iach a bywiog:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Interlink, Taclo Tipio Cymru, Cynefin, Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru / Welsh Water, Cymunedau yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Dark Sky Wales, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, Croeso i'n Coedwigoedd, Groundwork Caerffili, Canolfan Awyr Agored Daerwynno, Fforwm Mynediad Lleol Rhondda Cynon Taf, Mike Ash, Sustrans, Blaengad, Atkins, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru, Bicycle Doctor, Coed Cymru, Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent Cyf, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddlu De Cymru, Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru, Martyn Broughton, Coed Actif, Cymuned Artis, Simply the Best Training, Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol, Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBReC), Y Cerddwyr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Nigel Pugh, Scarlet Design Ltd, Dialogue by Design Ltd, a pobl cymuned y Rhondda.



Nigel Pugh, (www.nigelpugh.co.uk)



Nigel Pugh, (www.nigelpugh.co.uk)



### 3. Y 5 cyfle a'r 2 egwyddor sylfaenol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol y Rhondda yn gynaliadwy, a nodwyd gan sefydliadau, grwpiau cymunedol a thrigolion



#### Rheoli'r stad gyhoeddus i sicrhau buddion lluosog

- Mwy o gyfleoedd i bobl a chymunedau, yn cynnwys: ynni adnewyddadwy, perchnogaeth leol, hamdden a thwristiaeth cynaliadwy, hyfforddiant /swyddi, cynhyrchu bwyd.
- Gwell rheolaeth i wella'r amgylchedd, gan helpu i: leihau perygl llifogydd, gwella bioamrywiaeth a storio mwy o garbon.



#### Mae pobl yn elwa o fod yn yr awyr agored

- Amgylchedd gwell sy'n darparu gwasanaeth iechyd naturiol sy'n helpu i wella iechyd a lles pobl.
- Mwy o ymwybyddiaeth a mynediad da i fannau naturiol (trefol a chefn gwlad) i bobl eu defnyddio a'u mwynhau.
- Plant yn defnyddio ac yn rhyngweithio gyda'r awyr agored.



#### Creu mannau diogel, iach a gwydn i bobl eu defnyddio a'u mwynhau

- Cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd yn well i helpu i ymdrin â throseddau ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, a chefnogi cyfleoedd i sicrhau mwy o berchnogaeth leol i helpu i greu 'Gwarcheidwaid Galluog'.
- Rhwydwaith seilwaith gwyrdd wedi ei gysylltu'n dda, gyda swyddogaethau lluosog yn cyflenwi ystod eang o fanteision i gymunedau, yr economi leol a'r amgylchedd.



#### Gweithio gyda natur i helpu i adfer yr amgylchedd dŵr naturiol

- Adfer cynefinoedd yr ucheldir.
- Gweithio gyda phrosesau naturiol i helpu i leihau llifogydd a chyflawni amcanion ansawdd dŵr Ewropeaidd.
- Lleihau'r effeithiau i ddŵr o'r amgylchedd / seilwaith trefol.



#### Newid canfyddiadau

- Hyrwyddo'r Rhondda fel ardal ragorol ar gyfer hamdden a thwristiaeth cynaliadwy.
- Diogelu a datblygu treftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol yr ardal.

Egwyddor sylfaenol allweddol i weithio 1:  
**Adfer natur**

Egwyddor sylfaenol allweddol i weithio 2:  
**Sefydliadau a chymunedau sy'n gweithio gyda'i gilydd yn well**

# Rheoli'r stad gyhoeddus i sicrhau buddion lluosog

## Trosolwg

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cydnabod y manteision lluosog y gallai ein hadnoddau naturiol eu darparu. Gallai rheoli'r stad gyhoeddus yn gynaliadwy yng Nghymru ddarparu ystod eang o wasanaethau ecosystem, gan ddod â manteision lluosog i bobl, yr amgylchedd a'r economi.

Wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid Cyfoeth Naturiol Cymru yn y Rhondda, rhannodd sefydliadau, grwpiau cymunedol a thrigolion eu barn y dylai'r stad gyhoeddus (yn enwedig tir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol) gael ei reoli er mwyn dod â mwy o fanteision i'r ardal.

## Dywedasoch wrthym

Dywedasoch wrthym fod Stad Coetir Llywodraeth Cymru (WGWE) a reolir gan CNC yn ased gwych sy'n cael ei danddefnyddio, ac ystyrir bod CNC a chyrrff cyhoeddus eraill yn amharod i gymryd risg wrth wneud penderfyniadau, a allai atal cyfleoedd ehangach i gymunedau a'r economi leol gael eu gwireddu.

Dywedasoch y dylid cael mwy o ddealltwriaeth a thryloywder ynghylch y gwerth a'r buddion y mae Stad Coetir Llywodraeth Cymru yn eu darparu, a dylai CNC fod yn batrwm o reolwr tir i ysbrydoli eraill, yn fwy ac yn fwy beiddgar o ran ei uchelgeisiau ac yn gweithredu ar raddfa tirwedd. Dywedasoch hefyd fod yna gyfle gwych i helpu i atal dirywiad Bioamrywiaeth ar dir a reolir yn gyhoeddus.

Fe wnaethoch ddweud wrthym fod ar grwpiau cymunedol eisiau rheoli a chymryd perchnogaeth ar ardaloedd o dir sydd mewn eiddo cyhoeddus yn eu hardal leol am ystod eang o resymau (ee menter gymdeithasol, hyfforddiant, mynediad a hamdden, cynhyrchu bwyd, ynni adnewyddadwy ac ati), ond teimlech y dylai cyflawni hyn fod yn llai cymhleth ac yn llai biwrocraataidd. Dywedasoch hefyd fod ar gymunedau eisiau mynediad i fannau gwyrdd 'o ansawdd da', ac y dylent fod â mwy o ran mewn penderfyniadau a wneir ynghylch tir cyhoeddus agos atyn nhw, ee cynllunio coedwigaeth 'succession landscape.'

Dywedasoch wrthym fod ar gymoedd De Cymru angen atebion cydgyssylltiedig, a bod yn rhaid i sefydliadau a chymunedau weithio gyda'i gilydd i wneud y gorau o gyfleoedd, ac nid canolbwyntio ar amcanion unigol. Soniasoch hefyd y dylai cyfleoedd cyllido yng Nghymru dargedu syniadau a phrosiectau sy'n ceisio sicrhau manteision lluosog.

## Meysydd i ganolbwyntio arnynt

Nodwyd dau faes ffocws allweddol ar gyfer rheoli tir sy'n eiddo cyhoeddus:

- Mwy o gyfleoedd i bobl a chymunedau, yn cynnwys: ynni adnewyddadwy, perchenogaeth leol, hamdden a thwristiaeth gynaliadwy, hyfforddiant /swyddi, cynhyrchu bwyd.
- Optimeiddio rheolaeth i wella'r amgylchedd, gan helpu i: leihau perygl llifogydd, gwella bioamrywiaeth a storio mwy o garbon.

## Pam mae hyn yn bwysig ar gyfer y Rhondda?

Mae tir a reolir yn gyhoeddus yn cyfrif am tua dwy ran o dair o'r Rhondda, ac mae llawer o hyn yn cynnwys ardaloedd mawr o ucheldir a llethrau'r dyffryn. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig amrywiaeth o fuddion, a allai pan maent yn cael eu rheoli'n briodol, helpu i leddfu rhai o'r heriau sy'n wynebu'r ardal, yn awr ac yn y dyfodol.



## Oeddech chi'n gwybod?

Er eu bod yn gorchuddio dim ond 5.6% o'r arwynebedd tir yng Nghymru, mae priddoedd mawn dwfn yn cynnwys tua 30% o gyfanswm stoc carbon pridd y wlad. Ond mae llawer o'r ardaloedd hyn wedi cael eu diraddio oherwydd draenio, coedwigaeth planhigfeydd a gorburi. Mae'r gwaith o adfer cynefinoedd lled-naturiol yn yr ardaloedd hyn yn mynd rhagddo. Mae mawndir mewn cyflwr da yn cyflawni ystod o wasanaethau i'r ecosystem. Mae'n dal dŵr ac yn rheoleiddio penllanw llifogydd i lawr yr afon, yn gwella bioamrywiaeth, yn gwella ansawdd y dŵr a storfeydd carbon.

### Y cyfleoedd allweddol

Mae'r gyfran gymharol fawr o dir a reolir yn gyhoeddus yn y Rhondda yn cynnig cyfle aruthrol i Gyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Rhondda Cynon Taf a chymunedau **weithio gyda'i gilydd** i helpu i reoli adnoddau naturiol yr ardal yn gynaliadwy.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl yn wahanol, ac archwilio ffyrdd mwy integredig, arloesol o weithio sy'n darparu buddion cost-ffeithiol, lluosog gyda llai o adnoddau.

Gallai CNC ddylanwadu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) i weithio gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth a syniadau sy'n helpu i gyflwyno buddion lluosog sy'n amrywio o wella iechyd a lles, gwynwch cymunedol i adfer natur a hyfforddiant / addysg.



### Yr heriau

- Rheoli tir yn gynaliadwy, a'r manteision y mae'n eu darparu, yn cael ei gydnabod gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i bartneriaid fel blaenoriaeth.
- Sicrhau ymrwymiad a gweithredu gan yr holl bartion i gydweithio i ymdrin â rhai o'r heriau sy'n wynebu'r ardal, drwy reoli tir yn rhagweithiol.
- Galluogi dulliau cyflawni newydd (gan gynnwys ffyrddiau incwm newydd) ar gyfer rheoli tir yn well.
- Cyrff cyhoeddus yn gweithio'n well gyda chymunedau i greu'r amodau i gyfleoedd lleol gael eu gwireddu.

### Y risg

Y risg o beidio â gweithredu ar y cyfle hwn yw bydd cyrff cyhoeddus yn gwario mwy yn y pen draw yn ymdrin ag ystod eang o broblemau, yn amrywio o afiechyd i risg llifogydd.



### Astudiaeth achos: Llethrau Iach

Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion pellach am 'Llethrau Iach', dull cydweithredol o reoli adnoddau naturiol y Rhondda yn well, sy'n helpu i leihau effaith a difrifoldeb tanau gwyllt.

Mae'r dull hwn yn ymgorffori mesurau rheoli tir rhagweithiol i leihau'r perygl o danau gwyllt yn lledaenu, drwy reoli cynefinoedd yn gadarnhaol i leihau'r llystyfiant marw sy'n hel, ee pori ar gyfer cadwraeth, llosgi wedi'i reoli i greu bylchau tân, rheoli rhedyn.

Rhagwelir y bydd amrywiaeth eang o fuddion, gan gynnwys: gwarchodaeth a gwelliannau ar gyfer mynediad a hamdden; gwella cynefinoedd / bywyd gwyllt; gwell gwarchodaeth i safleoedd treftadaeth; partneriaid yn cydweithio a rhannu syniadau / adnoddau / arbenigedd; mwy o ymwybyddiaeth gan y cyhoedd; gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd; ac archwilio cyfleoedd ar gyfer rheolaeth gynaliadwy gyda grwpiau cymunedol.





## Mae pobl yn elwa o fod yn yr awyr agored

### Trosolwg

Mae'r awyr agored yn darparu gwasanaeth iechyd naturiol, ac mae annog gweithgarwch corfforol yn yr awyr agored yn ddewis rhad i helpu i wella iechyd corfforol a meddyliol pobl. Mae ymchwil wedi canfod bod treulio amser gyda natur yn rhoi gwarchodaeth rhag ystod eang o glefydau (ee iselder, diabetes, gordewdra, ADHD, clefyd cardiofasgwlaidd, canser a mwy), oherwydd gallu natur i wella'r modd y mae system imiwnedd y corff yn gweithio<sup>i</sup>.

Yn y DU, mae mannau gwyrdd yn werth o leiaf £30 biliwn y flwyddyn mewn budd-daliadau iechyd a lles<sup>ii</sup>. Mae'r Adran Iechyd yn cydnabod bod amgylchedd ffisegol gwael yn niweidiol i iechyd corfforol a meddyliol y cyhoedd<sup>iii</sup>. Mae ymchwil wedi dangos bod pobl yn fwy actif os ydynt yn byw o fewn amgylchedd naturiol deniadol ac ysbrydoledig.

I blant, mae mynediad at fannau chwarae naturiol a chyswllt â natur yn bwysig ac yn dod ag effeithiau cadarnhaol i'w dysgu a'u lles corfforol ac emosiynol. Yn ystod y cyfnod y bu CNC yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y Rhondda, fe wnaeth pobl gydnabod y rôl y gallai gweithgarwch corfforol yn yr awyr agored ei chwarae o ran gwella iechyd corfforol a meddyliol pobl, ac fe wnaethant nodi cefn gwlad yr ardal fel ased allweddol er mwyn helpu i gyflwyno buddion iechyd a lles ar gyfer ei bobl.

### Dywedasoch wrthym

Dywedasoch wrthym fod cefn gwlad y Rhondda yn ased gwych a bod cyfleoedd i sicrhau manteision iechyd i bobl, ond dylid cael cydweithio gwell a gwell hyrwyddo i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hamdden yn yr ardal. Fe wnaethoch grybwyll y gallai sefydliadau a chymunedau ddatblygu ar fentrau ymarfer corff awyr agored llwyddiannus megis Coed Actif, a datblygu prosiectau newydd yn yr ardaloedd sydd fwyaf eu hangen. Dywedasoch fod buddsoddi mewn amgylchedd o ansawdd uchel yn atal problemau ac y gallai arbed arian yn y tymor hir, ond mae angen gwell cydweithio ac mae angen cydlynw rhwng y sector iechyd, cyrff cyhoeddus a darparwyr awyr agored, yn enwedig o ran tynnu sylw at y manteision o fod yn yr awyr agored, gan fod yn sail i wneud penderfyniadau yn y dyfodol a nodi atebion iechyd cost effeithiol.

Roeddech yn teimlo mewn perthynas â mynediad a hamdden, y dylid cael gwell cydgysylltu rhwng partneriaid, yn enwedig CNC a'r awdurdod lleol, i ganolbwyntio ar y darlun ehangach. Dywedasoch y dylai'r flaenoriaeth fod ar gynnal a gwella mynediad presennol, a mynd ati i wahodd mwy o bobl i'w ddefnyddio a'i fwynhau, yn hytrach na chreu llwybrau mynediad newydd. Roeddech yn teimlo y dylai SCLIC/ WGWE fod yn fwy deniadol gydag arwyddion gwell (arwyddion CNC newydd) ar gyfer mynediad a hamdden, gan y gall caniatâd i fynediad fod yn aneglur ac mae cymunedau yn ansicr os / lle gallant gael mynediad i'w cefn gwlad lleol.

Fe wnaethoch chi roi llawer o syniadau ar sut i ddenu trigolion ac ymwelwyr i fwynhau llwybrau ar draws yr ardal (mae'r rhain wedi'u cynnwys isod), ac roeddech yn sylweddoli y dylai fod gwell cysylltiadau â'r sector iechyd.

O ran plant a phobl ifanc, dywedasoch fod diffyg gweithgareddau ar eu cyfer a 'phethau i'w gwneud', ac roeddech yn teimlo y gallai hyn weithiau arwain at ymddygiad negyddol, gwrth-gymdeithasol.

### Meysydd ffocws

Nodwyd tri maes ffocws allweddol i bobl fanteisio ar yr awyr agored:

- Amgylchedd gwell yn darparu gwasanaeth iechyd naturiol sy'n helpu i wella iechyd a lles pobl.
- Mwy o ymwybyddiaeth ynghylch mynediad i fannau naturiol (trefol a chefn gwlad) a mynediad da i bobl ei ddefnyddio a'i fwynhau.
- Plant yn defnyddio ac yn rhyngweithio gyda'r awyr agored.



### Pam mae hyn yn bwysig ar gyfer y Rhondda?

Mae ystadegau iechyd yn dangos bod poblogaethau yng Nghymoedd De Cymru ymysg y rhai mwyaf afiach yng Nghymru a Lloegr. Yn Rhondda Cynon Taf, mae ystadegau diweddar yn dangos bod tua 63% o oedolion dros eu pwysau neu'n ordew, mae 14% o drigolion yn dweud eu bod yn cael eu trin am salwch meddwl (y nifer uchaf yng Nghymru), ac mae dros chwarter yr oedolion yn ysmegu<sup>iv</sup>. Mae anweithgarwch corfforol yn costio amcangyfrif o £650 miliwn bob blwyddyn i Gymru. Amcangyfrifir bod cyfanswm cost problemau iechyd meddwl yng Nghymru yn £7.2 biliwn.

Mae'r Rhondda yn dri mynediad agored yn bennaf ac mae gan y Fwrdeistref Sirol ehangach (Rhondda Cynon Taf) dros 700 cilomedr o lwybrau a theithiau cerdded sefydledig sy'n cysylltu cymunedau a phentrefi â choetiroedd a mynyddoedd. Gyda chynllunio a buddsoddiad integredig, mae yna gyfle i weithio gydag asedau sylweddol yr ardal er mwyn helpu i ddarparu mynediad o ansawdd gwell, isadeiledd ac ymwybyddiaeth o fannau gwyrdd.

Mae cysylltiad pobl â'u hamgylchedd naturiol wedi lleihau yn sylweddol, ffenomen fodern a elwir yn 'Anhwylder Diffyg Natur' (NDD). Mae canlyniadau NDD yn cynnwys effeithiau ar iechyd pobl a llai o gymysgu'n gymdeithasol. Mae mannau gwyrdd o ansawdd da yn ffordd gost-effeithiol o gael canlyniadau iechyd cadarnhaol, ac yn opsiwn cost isel ar gyfer gwella lles corfforol a meddyliol pobl. Er enghraifft, dangosodd un astudiaeth fod 90-94% o bobl oedd yn cymryd rhan mewn ymarfer gwyrdd yn dweud bod ganddynt iechyd meddwl a chorfforol gwell.

Nid yw 1 o bob 4 o blant yng Nghymru fyth yn chwarae y tu allan ac mae ychydig o dan 90% o blant yn ystyried eu bod wedi eu datgysylltu oddi wrth y byd naturiol. Plant Cymru yw'r rhai lleiaf cysylltiedig â natur yn y DU<sup>v</sup>. Mae Chwarae Cymru yn tynnu sylw at sut mae chwarae ym myd natur yn cryfhau adnoddau i ymdopi â straen, yn annog diddordeb mewn edrych ar ôl yr amgylchedd, ac yn cyfrannu tuag at ystwythder, cydbwysedd, creadigrwydd, cydweithrediad cymdeithasol a chanolbwyntio<sup>vi</sup>.



### Y cyfleoedd allweddol

CNC yn dylanwadu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i bartneriaid i **gydweithio** i wella iechyd y cyhoedd yn lleol, drwy gynyddu maint, ansawdd a hygyrchedd y mannau naturiol mewn ardaloedd trefol a gwledig.

**Ymddrin â'r rhwystrau** sy'n atal cymunedau rhag defnyddio eu mannau awyr agored lleol (trefol a chefn gwlad), ac annog mwy o ddefnydd a pherchnogaeth ohonynt.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus **feddwl yn wahanol**, ac mae'n gyfle i werthfawrogi'r manteision ehangach y mae pobl yn eu profi o fod yn yr awyr agored a chyda grwpiau o bobl, ee y manteision cymdeithasol o gyfarfod â phobl newydd, gwneud ffrindiau, datblygu sgiliau cymdeithasol, a dysgu pethau newydd. Mae'r rhain yn bwysig ynddynt eu hunain fel cyfranwyr at iechyd da.

Yr amgylchedd yn y Rhondda yn cynnig lle diogel, gwych i **blant chwarae, dysgu a rhyngweithio** â'r byd naturiol.

### Yr heriau

- Sicrhau gweithredu gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i bartneriaid i ddarparu mannau gwyrdd o ansawdd da, hygyrch ac wedi eu cysylltu fel opsiwn cost isel i helpu i wella iechyd corfforol a meddyliol pobl.
- Cyflawni newid ymddygiad ystyrllon, yn erbyn cefndir o fwy o anweithgarwch corfforol.
- Darparu gwasanaethau gweithgaredd awyr agored diogel, proffesiynol y gallai gweithwyr iechyd proffesiynol eu defnyddio yn hyderus yn hytrach na thriniaethau ac atgyfeiriadau traddodiadol.
- Amgylchedd diogel, iach i'r plant eu defnyddio.

### Y risgiau

Gallai'r risgiau gynnwys: mwy o afiechyd, costau cynyddol trin afiechyd ac anweithgarwch corfforol, lleihad pellach mewn cydlyniant cymunedol a rhyngweithio, ac oedolion a phlant wedi eu datgysylltu'n gynyddol oddi wrth eu tirwedd a'u mannau gwyrdd lleol.

## Astudiaethau achos a fideo

- **Coed Actif**  
Adfer y [cyswllt](#) rhwng pobl a choedlannau.
- **Meddygfa Llanberis, Gwynedd**  
[Un](#) o bedair 'Coedwigoedd y GIG' yng Nghymru.
- **Prosiect y breuddwydion gwyrdd**  
. [Menter gymdeithasol](#) sy'n darparu cymorth cymdeithasol ar gyfer y rhai sy'n ddi-waith, yn ynysig ac mae ansawdd eu bywyd mor wael y mae wedi effeithio ar eu hiechyd a'u lles.
- **Free the kids – dirt is good**  
. [Ffilm](#) sy'n gwneud i chi feddwl o'r Unol Daleithiau am bwy sy'n treulio'r mwyaf o amser y tu allan: plentyn neu garcharor mewn uned hynod ddiogel?

### Rhai o'ch syniadau ar gyfer gwella iechyd

- Llwybr cymunedol 'Teithio Llesol' drwy'r Rhondda Fawr. Y dyffryn hwn yw'r ardal adeiledig fwyaf yn RCT heb lwybr di-dor.
- Tafleini gyda theithiau cerdded hawdd /canolig o amgylch cymunedau lleol ar gael mewn meddygfeydd, fferyllfeydd, deintyddion ac ysbytai yn y Rhondda.
- Y 10 uchaf o lwybrau a gwylfannau yn y Fwrdeistref Sirol i roi hyder i bobl y gallant ddilyn llwybrau hygrych.



# Creu mannau diogel, iach a gwydn i bobl eu defnyddio a'u mwynhau

Gallai mannau gwyrdd o ansawdd da ddarparu amgylchedd lleol mwy diogel a mwy croesawgar i bobl, ac mae buddsoddiad mewn seilwaith gwyrdd yn sail i lwyddiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol trwy gefnogi twf cynaliadwy.

## Dywedasoeh wrthym

Dywedasoeh wrthym fod trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghymoedd De Cymru yn tynnu'r ardal i lawr ac yn effeithio ar hyder pobl i dreulio amser yn yr awyr agored, ac mae angen i bartneriaid weithio'n well gyda'i gilydd er mwyn helpu i ymdrin â hyn. Dywedasoeh y dylai cymunedau gymryd mwy o ran yn eu hardaloedd lleol er mwyn annog mwy o berchnogaeth leol a fyddai'n helpu i greu 'Gwarcheidwaid Galluog'. Ond roeddech yn teimlo y dylai fod yn haws i grwpiau cymunedol wneud hyn, a dylai cyrff cyhoeddus weithio gyda a gwrandao ar gymunedau i helpu i ddatblygu mwy o ymddiriedaeth.

Er gwaethaf y maint cymharol uchel o fannau gwyrdd yn y Rhondda, roeddech yn teimlo ei fod yn aml yn ddarniog, heb ei reoli'n ddigonol, ac nad yw'n cyflawni ei botensial. Dywedasoeh wrthym fod ar gymunedau eisiau mynediad i fannau gwyrdd 'o ansawdd da', a gwell mynediad at YCLIC/WGWE gydag arwyddion gwell a mwy croesawgar. Mewn ardaloedd trefol, dywedasoeh fod pobl wedi eu datgysylltu oddi wrth afonydd, yn aml yn cael eu gwahanu'n gorfforol oddi wrthynt gan waliau uchel / amddiffynfeydd rhag llifogydd. Fe wnaethoch awgrymu y gallai seilwaith gwyrdd roi cyfleoedd i helpu pobl i gysylltu â'u hamgylchedd lleol.

Roeddech yn teimlo er mwyn i sefydliadau a chymunedau weithio'n well gyda'i gilydd, bod ar gyrrff cyhoeddus angen swyddogion sy'n fedrus mewn ymgysylltu â'r gymuned ac yn deall egwyddorion dulliau fel Datblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau (ABCD).

Dywedasoeh y byddech yn hoffi gweld mwy o bobl leol ac ymwelwyr yn defnyddio asedau mawr y Rhondda, ond mae angen gwell cysylltedd. Er enghraifft, dywedasoeh wrthym fod y Rhondda Fawr yn un o'r ychydig gymoedd yn Ne Ddwyrain Cymru sydd heb lwybr cymunedol, teithio llesol di-dor, yn rhedeg drwyddo. Gallai hyn ddod ag ystod eang o fanteision, gan gynnwys: gwell iechyd a lles, llai o draffig ar y ffyrdd, gwell ansawdd aer, cydlyniant cymunedol, dewis teithio cynaliadwy ar gyfer ysgolion a siwrneiau i'r gwaith, mwy o ymwelwyr a chyfleoedd ar gyfer digwyddiadau lleol.

## Meysydd ffocws

Nodwyd dau faes ffocws allweddol ar gyfer creu lleoedd diogel, iach a gwydn:

- Cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd yn well i helpu i daclo troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chefnogi cyfleoedd ar gyfer mwy o berchnogaeth leol i helpu i greu 'Gwarcheidwaid Galluog'.
- Rhwydwaith seilwaith gwyrdd wedi ei gysylltu'n dda gyda swyddogaethau lluosog yn cyflenwi ystod eang o fanteision i gymunedau, yr economi leol a'r amgylchedd.

## Pam mae hyn yn bwysig i'r Rhondda?

Yn y Rhondda, cafodd tacllo troseddau ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol ei amlygu fel un o'r prif flaenoriaethau yng ngweithdai rhanddeiliaid CNC, a drwy ffrydiau gwaith Coetiroedd y rhoddir Blaenoriaeth iddynt yn 2014. Dyma hefyd oedd yr ymateb mwyaf cyffredin gan drigolion y Rhondda pan ofynnwyd iddynt beth yr hoffent ei weld yn gwella fwyaf yn eu hardal. Mae ei effeithiau yn bellgyrhaeddol.

Mae troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn her gyson i gyrrff cyhoeddus, ac yn rhwystr sylweddol i bobl sy'n defnyddio ac yn mwynhau eu mannau gwyrdd lleol yn y Rhondda. Mae'n tansailio diogelwch a lles trigolion, mae'n effeithio ar yr economi a'r amgylchedd lleol, yn llesteirio ffyniant, ac yn atgyfnerthu canfyddiadau negyddol o'r Rhondda a Chymoedd ehangach De Cymru. Mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys CNC a'r awdurdod lleol, hefyd yn dioddef troseddau sy'n arwain at gostau blynyddol sylweddol.



### Beth yw seilwaith gwyrdd?

Seilwaith gwyrdd yw'r rhwydwaith byw o fannau gwyrdd, dŵr a nodweddion amgylcheddol eraill mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae enghreifftiau yn cynnwys: parciau, gerddi cymunedol, coed, coetiroedd, gwrychoedd, mannau anffurfiol, rhandiroedd, afonydd, llynnoedd, gwlyptiroedd a glan y môr.

Mae'n rhoi gwell ymdeimlad o le i gymunedau ac yn cynyddu cydlyniant cymunedol, mae'n lleihau effeithiau tlodi, anghydraddoldebau iechyd, yn gostwng cyfraddau trosedd, ac yn cynyddu iechyd a lles pobl. O ran yr economi leol, gall seilwaith gwyrdd gynyddu gwerth eiddo, lefelau datblygu / cyfraddau meddiannaeth, denu gweithwyr medrus, busnes a mewnfuddsoddi, a helpu i gynyddu gwariant ymwelwyr, gan wneud ardaloedd lleol yn fwy deniadol i ymwelwyr a thwristiaid. O ran yr amgylchedd, gallai leihau llifogydd, gwella llygredd aer a dŵr, helpu i gipio nwyon tŷ gwydr, a chreu tirweddau hardd, gan helpu pobl ail-gysylltu â natur.

O ran troseddau, canfuwyd bod mannau gwyrdd hygyrch a diogel yn gallu lleihau lefelau trais a rhai mathau o droseddau megis lladrad drwy ymosodiad a byrgleriaeth<sup>vii</sup>. Mae hyn o ganlyniad i fwy o wyladwriaeth mewn mannau lle mae llystyfiant yn tyfu ac effeithiau therapiwtig tirwedd gyda llystyfiant yn tyfu arno.

**Oeddech chi'n gwybod?** Mae adroddiad gan Gymdeithas yr Ymddiriedolaeth Tir yn dangos am bob £1 a warir ar seilwaith gwyrdd, bod cymdeithas yn elwa o £30 o ostyngiad am ddarpariaeth gofal iechyd a £23 tuag at leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol<sup>viii</sup>.

### Y cyfleoedd allweddol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl yn wahanol, ac mae'n gyfle i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chymunedau **weithio'n well gyda'i gilydd** a nodi camau gweithredu effeithiol sy'n helpu i leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cefnogi **perchnogaeth a gweithgarwch cymunedol** yn yr awyr agored, gan alluogi pobl i gysylltu â, gwerthfawrogi a bod yn berchen ar eu mannau lleol.

CNC yn dylanwadu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i **fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd** i gyflawni ar draws ystod eang o flaenoriaethau cyhoeddus, o adfywio a mewnfuddsoddi i ofal iechyd ataliol ac adferol.

**Llwybr cymunedol, teithio llesol di-dor**, drwy'r Rhondda Fawr, gan ddod â manteision i bobl, yr economi a'r amgylchedd lleol.



### Yr heriau

- Deall achosion lluosog a chymhleth troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Cyrff cyhoeddus yn deall gwir gost trosedd.
- Creu capasiti i sefydliadau a chymunedau weithio gyda'i gilydd, i gynllunio a darparu ymyriadau cydgysylltiedig.
- Cyflawni newid ymddygiad ystyrion mewn cymunedau lle mae troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi eu gwreiddio'n ddwfn.
- Cydlynu'r cynllunio a'r buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd o ansawdd da.

### Y risgiau

Cyrff cyhoeddus yn gwario mwy yn y tymor hir, gan weithio'n adweithiol mewn ymateb i ddigwyddiadau; effeithiau parhaus ar les a chydlyniant cymunedau; canfyddiadau negyddol ynghylch yr ardal; a mannau gwyrdd wedi eu datgysylltu neu o ansawdd gwael.

### Astudiaethau achos

- **Gweld Cymuned drwy'r Coed**  
Y [dolennau](#) ymhlith Cysylltiad ag Amgylcheddau Naturiol, Cydlyniant Cymunedol a Throsedd.
- **Belo Horizonte, Brasil**  
Mae nifer o fentrau yn gweddnewid y ddinas i fod yn enghraifft o arfer gorau ar gyfer trafniadaeth gynaliadwy, mannau lle mae pobl yn dod ynghyd, a gallu i wrthsefyll tirlithriadau a llifogydd.
- **Creu mannau diogel, iach a bywiog**  
Y dull yn Nhreial Rhondda CNC. Gweler atodiadau i weld astudiaeth achos.

## Gweithio gyda natur i helpu i adfer yr amgylchedd dŵr naturiol

### Trosolwg

Mae newid yn yr hinsawdd, twf poblogaeth, economeg, a deddfwriaeth amgylcheddol yn golygu bod angen symud tuag at ddull mwy integredig, yn seiliedig ar ddalgylchoedd, tuag at reoli tir a dŵr. Gallai rheoli tir a dŵr gyda'i gilydd ar raddfa dalgylch arwain at welliannau i ddalgylch cyfan a manteision lluosog i bobl, yr amgylchedd a'r economi.

Un elfen allweddol o'r dull dalgylch integredig hwn yw cydnabod y dull o weithio gyda phrosesau naturiol, a allai ddarparu atebion cynaliadwy, cost-effeithiol ac amlbwrpas, a helpu i greu gwytnwch ac ymateb i'r heriau sy'n wynebu Cymru.

### Dywedasoeh wrthym

Dywedasoeh wrthym fod yna gyfle gwych yn y Rhondda i wneud gwelliannau sylweddol i leddfu pwysau ar systemau draenio presennol, yn y lleoliad gwledig, yn yr ucheldir, ac yn yr ardal drefol.

Roeddech yn teimlo bod hyn yn her yn y tymor hir, ond y cynharaf y bydd yn dechrau, y cynharaf y gallai'r manteision ariannol ac amgylcheddol gael eu dangos. Dywedasoeh hefyd fod angen ystyried a gweithredu newidiadau mewn defnydd tir a rheoli i helpu i adfer hydroleg yr ardal, dal mwy o ddŵr, cynyddu ymdreiddiad ac arafu llif y dŵr.

Dywedasoeh chi fod angen i ni wneud gwell defnydd o fannau gwyrdd i ryng-gipio dŵr wyneb, gan fod gormod o law yn mynd drwy'r systemau draenio sy'n achosi i garthffosydd orlifo i afonydd. Dywedasoeh fod rhwystredigaethau ynghylch y ffaith fod cyfleoedd yn ymwneud â draenio cynaliadwy yn cael eu colli, a dylai cynlluniau draenio cynaliadwy fod yn orfodol ar gyfer datblygiadau newydd, yn hytrach nag yn wirfoddol (sef yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd).

Dywedasoeh fod yn rhaid i CNC wneud y gorau o'r cyfleoedd mawr ar garreg y drws, ee rheoli cynefin ar safle fferm wynt Pen y Cymoedd. Roeddech yn teimlo bod pobl yn y Rhondda a chymoedd ehangach De Cymru yn aml yn cael eu datgysylltu oddi wrth afonydd oherwydd y waliau uchel / amddiffynfeydd rhag llifogydd, ond gallai seilwaith gwyrdd helpu pobl ail-gysylltu â'u hamgylchedd lleol. Dywedasoeh hefyd fod pobl yn poeni am symud llarwydd, a sut y gallai hyn effeithio ar gymunedau mewn perthynas â llifogydd dŵr wyneb a malurion yn blocio cylfatiau.



### Meysydd ffocws

Cafodd tri maes ffocws allweddol i helpu i adfer amgylchedd dŵr naturiol y Rhondda eu nodi:

- Adfer cynefinoedd yr ucheldir.
- Gweithio gyda phrosesau naturiol i helpu i leihau llifogydd a chyflawni amcanion ansawdd dŵr Ewropeaidd.
- Lleihau effeithiau'r amgylchedd / seilwaith trefol ar ddŵr.

### Pam mae hyn yn bwysig ar gyfer y Rhondda?

Mae perygl llifogydd yn y Rhondda yn uchel a disgwylir iddo gynyddu yn y dyfodol. Mae lefel y glawiad yn y Rhondda yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU), a cheir yno rhwng 2,000-3,000mm o law bob blwyddyn<sup>xii</sup>.

Y ddwy brif afon yn y Rhondda yw'r Rhondda Fawr a'r Rhondda Fach sydd yn llifo trwy ddau gwm gydag ochrau serth, sydd wedi eu trefoli'n drwm. Mae'r glawiad uchel a thopograffeg yr ardal yn arwain at system afon adweithiol gyda ffalchlifoedd yn nodweddiadol, yn enwedig yn ystod y gaeaf. Mae dŵr wyneb lleol a llifogydd o garthffosydd yn broblem hefyd. Mae'r systemau carthffosiaeth presennol yn hen (Oes Fictoria) ac yn methu ymdopi â'r hyn a ddisgwylir iddynt wneud heddiw. Mae yna nifer o ollyngiadau i mewn i'r afonydd, sy'n aml yn rhedeg gerllaw hen systemau carthffosiaeth a rhai presennol. Mae tua 4km o amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae sianeli sy'n cael eu cynnal a'u cadw yn y Rhondda, a rhai cymunedau yn ddibynnol iawn ar yr

amddiffynfeydd i leihau'r tebygolrwydd o lifogydd<sup>ix</sup>.

O dan senario allyriadau canolog y 2050au ar gyfer newid yn yr hinsawdd, rhagwelir y bydd Cymru'n gweld cynnydd o 14% mewn glawiad cymedrig yn y gaeaf, ac 17% o ostyngiad mewn glawiad cymedrig yn yr haf. Mae gan y risgiau hyn ganlyniadau difrifol iawn o ran niwed i fywyd ac asedau cymunedol hanfodol.

Bydd CNC yn parhau i gynnal amddiffynfeydd a darparu rhybuddion llifogydd, ond efallai na fydd modd cyfiawnhau ac na fydd yn dderbyniol cynyddu uchder amddiffynfeydd yn y dyfodol. Er mwyn helpu i ymdrin â'r heriau hyn, ni allwn ddibynnu ar amddiffynfeydd rhag llifogydd traddodiadol yn unig, ac mae'n rhaid ystyried amrywiaeth eang o ddulliau<sup>x</sup>.

Er enghraifft, gallai amseriad a maint y dŵr ffo, llifogydd ac ail-lenwi dyrhaenau gael ei ddylanwadu'n gryf gan newidiadau mewn gorchudd tir a rheolaeth. Mae'r Rhondda wedi ei leoli ar ymyl ddeheuol mawngogydd yr ucheldir yng Nghymru.

Er bod llawer iawn o fawngogydd yr ucheldir yn y Rhondda wedi cael eu colli neu eu bod mewn cyflwr gwael (oherwydd coedwigaeth blanhigfa, draenio a gor-bori), mae cyfleoedd ar gyfer eu hadfer. Gall adfer mawnog ddod â manteision i bobl a'r amgylchedd, a chyfrannu at wytnwch i wynebu newid yn yr hinsawdd, drwy storio a rheoleiddio llif y dŵr, gwella ansawdd dŵr, a storio carbon.

**Oeddech chi'n gwybod?** Disgwylir y bydd cost llifogydd i'r DU yn ystod gaeaf 2015 yn fwy na £5 biliwn<sup>xi</sup>.

### Y cyfleoedd allweddol

CNC, Cyngor Rhondda Cynon Taf a phartneriaid allweddol yn **gweithio gyda'i gilydd** er mwyn helpu i leihau risgiau llifogydd dŵr wyneb a llifogydd o afonydd.

Nodi ardaloedd (yn arbennig ar dir sy'n cael ei reoli'n gyhoeddus) lle gallai CNC / Cyngor RhCT **weithio gyda phrosesau naturiol** i ddarparu atebion cynaliadwy, cost-effeithiol ac amlbwrpas sy'n helpu i leihau perygl llifogydd, gwella ansawdd dŵr, gwella bioamrywiaeth a chreu gwytnwch.

Sefydliadau yn gweithio gyda chymunedau i nodi a **helpu i adfer ymatebion sy'n ymwneud â dalgylch naturiol mewn ardaloedd trefol** i reoli dŵr wyneb drwy ystod o atebion arloesol, deniadol, ee pantiau, lleiniau hidlo a sianeli glaswellt.



### Yr heriau

- Creu capasiti i sefydliadau gynllunio a chyflwyno ymyriadau cydgysylltiedig.
- Parodrwydd sefydliadau i ystyried amrywiaeth eang o ddulliau a gweithredu ar gyfleoedd, mewn ardaloedd gwledig a threfol.
- Tystiolaeth gadarn a derbyniol ar gyfer gweithio gyda phrosesau naturiol.

### Y risgiau

Y risgiau o beidio â manteisio ar y cyfle hwn yw: niwed posibl i fywyd ac asedau cymunedol hanfodol, sy'n debygol o gynyddu gyda rhagolygon newid yn yr hinsawdd; mwy o wariant cyhoeddus yn y tymor hir, wrth ymateb i fwy o ddirywiad llifogydd; colli cyfleoedd i wella'r amgylchedd trefol, gwella bioamrywiaeth a storio carbon.

### Astudiaethau achos

- **Meddwl i fyny'r afon** Fe  
wnaeth [Ail-wlychu ym Migneint Exmoor](#) drwy flocio ffosydd draenio leihau llifau storm i 32% o'r lefel cyn adfer y migneint, sy'n cyfateb i 8,000 metr ciwbig yr hectar y flwyddyn<sup>xiii</sup>.
- **'Llwyd i wyrdd' yn Sheffield**  
[Prosiect](#) i drawsnewid Ardal Fusnes Riverside yn Sheffield.
- **Gweithio gyda phrosesau naturiol yn y Rhondda**  
Dull yn Nhreial Rhondda CNC. Gweler atodiadau i weld astudiaeth achos.

## Newid canfyddiadau

### Trosolwg

Efallai bod y Rhondda yn fwyaf adnabyddus am ei etifeddiaeth mwyngloddio byd-enwog a chymunedau cryf, clos. Gan fod yr ardal wedi ei bendithio ag amgylchedd naturiol mor hardd, mae cyfleoedd i ddatblygu ar hyn a hyrwyddo'r Rhondda fel ardal ragorol ar gyfer hamdden a thwristiaeth gynaliadwy.

### Dywedasoeh wrthym

Dywedasoeh wrthym fod angen gweledigaeth feiddgar a dull cydgysylltiedig rhwng cyrff cyhoeddus, cymunedau a busnesau lleol. Roeddech yn teimlo mai entrepreneuriaid, cynghreiriaid a busnesau lleol oedd yn y sefyllfa orau i helpu i roi trefn ar hyn, a gallai cyrff cyhoeddus gefnogi'r rhai sydd am weithio gydag asedau naturiol yr ardal, a helpu i'w gwella.

Cydnabuwyd nad yw hyn yn syniad newydd, ond mae angen dull newydd i greu dyfodol gwell ac mae hyn yn cynnwys mwy o ymddiriedaeth rhwng cyrff cyhoeddus a chymunedau.

Dywedasoeh fod treftadaeth ddiwydiannol a diwylliannol y Rhondda yn diffinio'r ardal, ond nid oes rhaid i hynny ddiffinio ei ddyfodol. Dywedasoeh fod canfyddiadau negyddol o'r cymoedd, o fewn y cymunedau eu hunain, ac o'r tu allan. Roeddech yn teimlo bod pobl yn cael eu datgysylltu oddi wrth eu hamgylchedd naturiol, a byddech yn hoffi gweld mwy o bobl leol (ac ymwelwyr) yn defnyddio asedau gwych y Rhondda, ond mae angen gwell cysylltedd i helpu i hyn ddigwydd.

Roeddech yn gwerthfawrogi potensial gwych y Rhondda a'r fwrdeistref sirol ehangach, o ran hamdden yn enwedig cerdded a beicio, ac yn teimlo y dylid datblygu ar hyn i ddarparu profiad o'r radd flaenaf. Ond dywedasoeh y dylai'r manteision economaidd gael eu teimlo o fewn y gymuned er budd pobl sy'n byw ac yn gweithio yno.

Roeddech yn teimlo hefyd y gallai cymunedau reoli mwy o'u hardaloedd lleol, gan rymuso pobl leol ac o bosibl gynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth. Awgrymasoeh fod angen gwneud mwy i hysbysu pobl leol bod y cefn gwlad o'u hamgylch yno iddynt ei ddefnyddio a'i fwynhau.

### Meysydd ffocws

Nodwyd dau faes ffocws allweddol:

- Hyrwyddo'r Rhondda fel ardal ragorol ar gyfer hamdden a thwristiaeth gynaliadwy.
- Diogelu ac adeiladu ar dreftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol yr ardal.



### Pam mae hyn yn bwysig ar gyfer y Rhondda?

Mewn digwyddiadau CNC yn y Rhondda, roedd pobl yn cydnabod treftadaeth ddiwydiannol a diwylliannol yr ardal, ond roeddent yn awyddus i adeiladu ar hyn a gweithio gyda thirwedd, asedau naturiol a threftadaeth anhygoel yr ardal i greu profiadau ac anturiaethau o ansawdd da, sydd yn eu tro yn dod â budd i'r gymuned leol.

Mae'r Rhondda yn mwynhau mwy o arwynebedd o dir hygrych o'i gymharu â'r gymuned gyfartalog yng Nghymru, gyda dros 700 o gilometrau o lwybrau a theithiau cerdded sefydledig, sy'n cysylltu cymunedau a phentrefi â choetiroedd a mynyddoedd yn y Fwrdeistref Sirol ehangach<sup>xiv</sup>. Mae cerdded yn cael ei gydnabod fel gweithgaredd allweddol ar gyfer cynyddu nifer yr ymwelwyr ac ymgysylltu â chymunedau lleol. Yn ogystal â mynediad ar droed, mae Stad Coetir Llywodraeth Cymru yn caniatáu mynediad i feicwyr a merlotwyr ar hyd y traciau coedwig.

Mae beicio yn fwyfwy poblogaidd ac yn werth £3 biliwn y flwyddyn i economi'r DU<sup>xv</sup>. Mae'r Rhondda wedi ei fendithio fel lleoliad rhagorol ac mae'n fwyfwy poblogaidd ar gyfer beicio, gyda chymorth dringfeydd ar hyd ffordd boblogaidd Bwlch a Rhigos. Mae clybiau beicio lleol yn fwyfwy poblogaidd (ac yn darparu ar gyfer pob oed), ac mae'r ardal yn gartref i'r Valleys Velo Sportive blynyddol. Gyda'i dringfeydd ffordd ffantastig a'r posibilrwydd o ailagor Twannel y Rhondda, mae cyfleoedd i adeiladu ar botensial yr ardal fel un o'r cyrchfannau beicio gorau yng Nghymru.



Ond mae'r Rhondda Fawr yn un o'r ychydig gymoedd yn Ne Ddwyrain Cymru nad oes ganddo lwybr teithio llesol parhaus yn rhedeg drwyddo.

Byddai hyn yn helpu i ddod ag ystod eang o fanteision i'r gymuned, ee hamdden a thwristiaeth gynaliadwy, gwell iechyd a lles, a gwell mynediad i fannau yn yr awyr agored.

Mae gan y Rhondda gelfyddydau a diwylliant gwych, sy'n darparu cartref golygfaol, fforddiadwy i bobl greadigol. Mae yna rwydwaith cynyddol i'w cefnogi a'u hyrwyddo nhw a'u canolfannau fel cyrchfannau i dwristiaid. Gweithgaredd sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd yw syllu ar y sêr, ac mae'r Rhondda ar hyn o bryd yn gartref i 4 Safle Darganfod Awyr Dywyll.

Mae'r casgliad o brosiectau antur yng Ngogledd Cymru a gynhwysir yn yr adran astudiaethau achos (ar y dde), yn dangos sut mae modd gweithio gydag asedau a threftadaeth naturiol ardal i greu profiadau unigryw sydd yn eu tro yn helpu i adfywio cymunedau.

#### Oeddech chi'n gwybod?

Y mwyaf y mae pobl yn seiclo, y mwyaf o arian sy'n cael ei arbed i'r economi leol o ran tagfeydd traffig, yr amgylchedd lleol gyda lefelau llygredd is, a'r bwrdd iechyd lleol gyda llai o absenoldebau o'r gwaith oherwydd salwch. Amlygodd adroddiad 2011 a gynhyrchwyd gan y London School of Economics y byddai cynnydd o 20% mewn beicio erbyn 2015 yn arbed £207 miliwn i'r economi mewn llai o dagfeydd traffig, £71 miliwn mewn lefelau llygredd is, a £52 miliwn yng nghostau'r GIG (mae ymchwil yn dangos bod beicwyr yn cymryd llai o ddiwrnodau o salwch y flwyddyn), o'i gymharu â rhai nad ydynt yn feicwyr.

#### Y cyfleoedd allweddol

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid yn **hyrwyddo gweledigaeth gymhellol** ar gyfer cymoedd De Cymru fel rhan annatod o'r Ddinas-ranbarth, fel ardal ragorol i fyw a gweithio ynddi a'i mwynhau.

**Dull cydgysylltiedig** rhwng cyrff cyhoeddus, cymunedau a busnesau lleol i gyflenwi a hyrwyddo hamdden a thwristiaeth gynaliadwy.

Cefnogi cymunedau sydd am weithio gyda, a gwella eu hasedau naturiol lleol, gan **annog perchnogaeth fwy lleol**.

#### Astudiaethau achos

- **Zipworld, Gogledd Cymru**  
Entrepreneuriaid yn gweithio gyda'u tirlun lleol i ddarparu [atyniadau twristiaeth](#) mawr. Mae bellach yn un o brif gyrchfannau'r DU o ran antur, ac mae twristiaeth yn ffynnu yn yr ardal.
- **Datblygu economi sy'n rhannu**  
Mae gwefan [Shareable.net](#) yn arddangos sut mae mentrau rhannu o fudd i bobl, yr economi a'r amgylchedd.

#### Rhai o'ch syniadau ar gyfer newid canfyddiadau

- Caffi ar ben y Rhigos i ddatblygu'r nifer cynyddol o ymwelwyr a beicwyr sy'n stopio ac yn parcio wrth y prif wylfannau.
- Nawdd preifat (busnes) i barciau / coetiroedd lleol i ddarparu cyllid ar gyfer gwelliannau a chyfranogiad cymunedol.

#### Yr heriau

- Ymdrin â throeddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ffynhonnell canfyddiadau negyddol sy'n cyfyngu ar botensial y Rhondda, a chymoedd ehangach de Cymru.
- Gallu cyrff cyhoeddus i weithio gyda chymunedau ac entrepreneuriaid i ddatblygu a chyflawni syniadau.

#### Y risgiau

Y risgiau o beidio gweithredu ar y cyfle hwn yw: llai o fuddsoddiad / ymwelwyr / cyfraniad at yr economi leol / twf.



Luke Maggs.

# Y ddwy egwyddor sylfaenol i helpu i gyflawni'r 5 blaenoriaeth

## 1) Adfer natur

### Trosolwg

Mae natur yn cyfoethogi ein bywydau ac yn rhoi i ni'r sylfeini a'r warchodaeth ar gyfer bywyd. Mae ecosystemau iach yn rhoi adnoddau a gwasanaethau naturiol i bobl, ac yn creu gwytnwch i wrthsefyll newidiadau yn yr hinsawdd a rhai eraill. Er enghraifft: amddiffyn rhag llifogydd, peillio ar gyfer cynydau a blodau, gwella ansawdd yr aer / dŵr, storio carbon. Ond mae llawer o'n hecosystemau wedi eu diraddio ac nid yw eu gallu i ymateb i effeithiau a darparu adnoddau yn ddiderfyn.

### Dywedasoch wrthym

Fe wnaethoch ddweud wrthym eich bod yn pryderu bod yr hinsawdd bresennol o lymder yn golygu bod gwarchod natur yn debygol o ddod yn llai o flaenoriaeth, a bod angen i ni weithio gyda'n gilydd i unioni'r anghydbwysedd, cyn i ddifrod di-droi'n ôl gael ei wneud. Dywedasoch fod angen i CNC a'i bartneriaid fod yn feiddgar gyda'u huchelgeisiau, yn gweithredu ar raddfa tirwedd er mwyn helpu i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2020.

Fe wnaethoch ddweud y bydd angen i Ddatganiadau Ardal, sy'n ofyniad dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), ddarparu ar gyfer cadwraeth natur, a dylai cyllid fod ar gael o feysydd ehangach o ystyried bod ecosystemau iach wrth wraidd sylfaenol cymdeithas a'r economi.

Drwy gydol y trafodaethau, roeddech yn teimlo bod amgylchedd naturiol iach ac ecosystemau gwydn yn hanfodol, yn awr ac yn y dyfodol, a dylid eu blaenoriaethu yn ardal y Rhondda a chymoedd ehangach de Cymru.

### Meysydd ffocws

Nodwyd tri maes ffocws ar gyfer adfer natur:

- Cysylltedd cynefinoedd.
- Ymwybyddiaeth Bioamrywiaeth: addysg y cyhoedd, a chyfranogiad, ymwybyddiaeth a gweithredu fel dyletswydd i bob corff cyhoeddus o dan y Ddeddf NERC.
- Ecosystemau gwydn i helpu i ddarparu gwasanaethau ecosystem hanfodol.

### Pam fod adfer natur yn egwyddor allweddol?

Mae tirwedd, amgylchedd a bywyd gwyllt Cymru ymysg ei adnoddau mwyaf ac maent yn werth mwy na £8 biliwn i economi Cymru<sup>xvi</sup>. Ond mae'r adroddiad 'State of Nature' a gyhoeddwyd yn 2013, gyda mewnbwn gan 25 o sefydliadau gwarchod natur ac ymchwil y DU, yn nodi sefyllfa bresennol bywyd gwyllt, gan ddangos bod 60% o'r 3,148 o rywogaethau a aseswyd wedi dirywio yn yr 50 mlynedd diwethaf<sup>xvii</sup>. Tynnwyd sylw at bump o'r prif elfennau sy'n rhoi pwysau ar natur: newid cynefin, newid yn yr hinsawdd, llygredd, gorymelwa a rhywogaethau anfrodorol goresgynnol.

Y Rhondda yn gartref i fosaig neu glytwaith o gynefinoedd cymhleth. Mae ei llethrau (a elwir yn ffridd neu Goed Cae), yn gynefin amrywiol yn cynnwys cymysgedd o laswelltir asidig, rhostir, rhedyn, coetir, prysgwydd a llaciau, a dyma'r bont rhwng y dyffryn isaf a'r ucheldiroedd. Drwy gymoedd De Cymru, mae yna ardaloedd o rwbel glo yn weddill sy'n cefnogi micro-gynefinoedd unigryw ac amrywiol oherwydd y topograffi amrywiol a'r daeareg a ddygwyd i fyny o'r dyfnder yn ystod gweithgareddau mwyngloddio. Mae'r tomennydd hyn yn unigryw o ran eu gwerth bioamrywiaeth, ac mae rhai o'r enghreifftiau gorau o gen-rhos yng Nghymru yn digwydd ar yr hen dipiau gwastraff glo yng Nghwm Rhondda.



Mae gan y Rhondda ardaloedd mawr o ucheldir, gyda rhai ohonynt wedi cael eu coedwigo. Mae gan fannau agored eangderau o gors, mignen a glaswelltir asidig. Mae mawnogydd yn bwysig ar gyfer rhywogaethau ucheldirol o infertebratau, rhywogaethau adar fel y gïach a'r gornchwiglen, yn ogystal â chasgliad cyfoethog o blanhigion megis llafrn y bladur.

Cafodd ardaloedd o fawnogydd yn y Rhondda eu colli neu maent mewn cyflwr gwael (oherwydd coedwigaeth blanhigfa, draenio a gor-bori), ond mae cyfleoedd i'w hadfer. Gall a dfer mawnog ddod â manteision i bobl a'r amgylchedd, a chyfrannu at wytnwch i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, drwy storio a rheoleiddio llif y dŵr, gwella ansawdd dŵr, a storio carbon.

Mae'r Rhondda yn cefnogi ystod amrywiol o gynefinoedd lled-naturiol a rhai a addaswyd. Yn arbennig, mae maes glo De Cymru yn cael ei gydnabod fel ardal allweddol yng Nghymru ar gyfer glaswelltir corsiog. Mae'r clwstwr o'r cynefin 'Porfa Ros' hwn yn yr ardal o amgylch Tonyrefail ar ffin ddeheuol y Rhondda yn arbennig o bwysig ar gyfer glöyn brith y gors (*Euphydryas aurinia*) sy'n dibynnu ar rwydwaith gysylltiedig o glytiau o gynefin i gynnal strwythur ei fetaboblogaeth.

Mae Stad Coetir Llywodraeth Cymru yn cyfrif am gyfran gymharol fawr o'r Rhondda. Mae'r bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â phlanhigfeydd coedwig yn cynnwys poblogaethau mawr o bila gwyrdd a gylfin groes, a throellwyr mawr o fewn ardaloedd lle mae coed wedi eu torri. Mae bygythiad sylweddol i'r coetiroedd a'r coedwigoedd yn dod o glefydau a phlâu. Ers 2010, mae *phytophthora*

*ramorum* wedi heintio tua 6.7 miliwn o goed larwydd yng Nghymru, ac mae CNC yn cyflwyno gwaith mawr i gwmpo coed i arafu lledaeniad y clefyd. Gall clirio coed ar raddfa fawr fel hyn roi cyfleoedd i adfer cynefinoedd, gan gynnwys cefnogi rhydwraith coetiroedd llydandail (plannu neu adfywio naturiol) ac adfer cynefinoedd agored â blaenoriaeth.

Mae rhywogaethau ymledol fel Clymog Japan a Jac y Neidiwr yn gyffredin yng nghymoedd De Cymru, gan effeithio ar bioamrywiaeth lleol, cysylltedd, yn cystadlu'n llwyddiannus yn erbyn rhywogaethau brodorol ac yn goruchafu ar dirweddau.

#### Y cyfleoedd allweddol:

CNC a Chyngor Rhondda Cynon Taf yn **gweithio gyda'i gilydd i fod yn enghreifftiau da o ran rheoli tir cynaliadwy**, gan ddangos sut mae buddsoddi mewn natur yn dod â manteision lluosog i bobl a'r amgylchedd.

'Datganiadau Ardal', gofyniad ar CNC dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (gan ddechrau yn 2017), **yn darparu ar gyfer cadwraeth natur**.

CNC, Cyngor Rhondda Cynon Taf a phartneriaid cadwraeth **yn cefnogi cymunedau a gwirfoddolwyr** sydd am wella eu hardaloedd lleol, trwy gynnig cyngor ac arweiniad i sicrhau bod gweithgareddau yn briodol ac o fudd i'r amgylchedd lleol.

**Cynlluniau Adnoddau Coedwig CNC yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwella, adfer a chysylltedd cynefinoedd**, er mwyn sicrhau Stad Coetir Llywodraeth Cymru gynaliadwy a chadarn.

#### Oeddech chi'n gwybod?

Mae 88% o boblogaeth y DU yn credu bod bioamrywiaeth yn anhepgor ar gyfer cynhyrchu nwyddau, megis bwyd, tanwydd a meddyginiaeth. Mae 94% yn cytuno bod gennym ddyletswydd foesol i atal colli bioamrywiaeth.



#### Yr heriau:

- Sicrhau ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth yn y tymor hir, gyda chefnogaeth gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn cyflawni newid ar raddfa tirlun a sefydlu fframwaith lle gall rheoli tir yn gynaliadwy gael ei weithredu.
- Cydnabyddiaeth ehangach (yn sefydliadol a chyhoeddus) bod amgylchedd iach, naturiol yn darparu'r sylfeini a'r warchodaeth ar gyfer bywyd, ac yn y bôn yn sail i gymdeithas.
- Effaith a chyfyngiadau adennill tir ar raddfa fawr a choedwigo yn yr ardal.

#### Y risgiau:

Colli ecosystemau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, dirywiad pellach mewn prosesau naturiol yn arwain at effeithiau negyddol lluosog i bobl, yr economi a'r amgylchedd, a llai o wytnwch i newid yn yr hinsawdd.

## 2) Sefydliadau a chymunedau'n gweithio gyda'i gilydd yn well

### Trosolwg

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl yn wahanol, ac archwilio ffyrdd mwy integredig, arloesol o weithio sy'n darparu buddion cost-ffeithiol lluosog gyda llai o adnoddau.

Mae'r hinsawdd ariannol bresennol yn golygu bod angen gwell cydweithio rhwng sefydliadau cyhoeddus a chymunedau lleol i helpu i gyflawni nodau ac amcanion cyffredin sydd o fudd i bobl, yr amgylchedd a'r economi lleol. Mae gweithio gyda'n gilydd yn helpu i dynnu sylw at heriau a'r atebion, ac yn galluogi mwy o gynaliadwyedd wrth gynllunio a darparu.

Yn y Rhondda, fe wnaeth swyddogion CNC ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu, ac fe wnaethant geisio dod ag amrywiaeth eang o sefydliadau, grwpiau cymunedol a phobl i rannu eu syniadau. Golygai hyn fod y pum blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol y Rhondda wedi eu cyflawni drwy ddeialog agored, gonest a chonsensws eang, a'u bod yn fwy mewn cytgord â'r ardal.

Trwy brofiad Treial y Rhondda, roedd cynrychiolwyr yn cydnabod y manteision o weithio mewn partneriaeth, ac yn cytuno bod gweithio yn well gyda'i gilydd yn hanfodol yn awr, ac yn y dyfodol.

Rhoddodd Treial y Rhondda gyfle hefyd i CNC a'r awdurdod lleol (Rhondda Cynon Taf) weithio'n agos gyda'i gilydd, gan ganolbwyntio ar themâu a blaenoriaethau trawsbynciol, gan rannu dysgu, a nodi ffyrdd o gydweithio i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol y Rhondda a'r cynlluniau Lles.

### Y cyfle allweddol

Bydd gweithio ar y cyd, a gyda chymunedau, yn galluogi prosiectau a gynlluniwyd yn well sy'n ymdrin â'r prif heriau yn y Rhondda a'r Fwrdeistref Sirol ehangach, i rannu adnoddau ac arbenigedd, a sicrhau manteision lluosog.

### Yr heriau

Dod o hyd i fforymau priodol i ddod â phobl a syniadau at ei gilydd; cyflwyno ymgysylltu â rhanddeiliaid cydgysylltiedig, cynhwysol; gan nodi arweinwyr sefydliadol ar gyfer prosiectau cydweithredol.

### Y risgiau

Y risgiau o beidio gweithredu ar y cyfle hwn yw: cyrff cyhoeddus yn parhau i weithio ar wahân ar bynciau unigol, yn gwario mwy yn y tymor hir yn ymdrin ag ystod eang o broblemau, ac ymateb i risgiau a heriau, yn hytrach na mynd ar drywydd canlyniadau cynaliadwy yn rhagweithiol.

### Meysydd ffocws

Cafodd tri maes ffocws eu nodi:

- Datblygu a chyflwyno prosiectau bach, canolig a mawr gyda'i gilydd sy'n darparu buddion lluosog.
- Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi perchnogaeth leol gynaliadwy ar asedau cymunedol.
- Rhannu arbenigedd, tystiolaeth a chefnogaeth.



## Sut mae'r blaenoriaethau a'r egwyddorion yn bodloni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

	Rheoli'r stad gyhoeddus ar gyfer buddion lluosog	Pobl yn elwa o fod yn yr awyr agored	Creu mannau diogel, iach	Adfer yr amgylchedd dŵr naturiol	Newid canfyddiadau	Adfer natur	Gweithio gyda'n gilydd yn well
<b>Cymru lewyrchus</b>	***	***	***	**	***	***	***
<b>Cymru gydnerth</b>	***	**	**	***	**	***	***
<b>Cymru iachach</b>	***	***	***	**	**	**	**
<b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b>	*	**	***	*	***	**	**
<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	*	**	***	*	**	*	**
<b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b>	*	**	**	**	**	*	**
<b>Cymru' sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</b>	***	*	*	**	**	***	**

## 4. Dysgu, y camau nesaf a CNC yn datblygu Datganiadau Ardal

Nid oes digon o amser wedi mynd heibio i benderfynu a yw'r prosiectau o fewn pob treial wedi cyflwyno'r canlyniadau y bwriadwyd iddynt eu cyflawni. Ond rydym yn dysgu'n barhaus ac yn monitro cynnydd a byddwn yn addasu yn unol â hynny.

Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol gan ein partneriaid am y dull gweithredu. Roedd yn ein galluogi i weithio gyda'n partneriaid ar faterion mawr cymdeithasol, a oedd yn y gorffennol yn cael eu hystyried yn rhy heriol neu ddim o fewn ein cylch gwaith. Roedd partneriaid yn teimlo eu bod yn ymwneud mwy â ni, ac yn croesawu'r cyfle i chwarae rhan wrth ddod o hyd i atebion.

Mae dysgu yn cael ei ddefnyddio i asesu ein prosesau busnes ein hunain, ac a oes modd eu newid i gyd-fynd â'r ffyrdd newydd hyn o weithio yn well. Mae'r gwersi o'r treialon hefyd yn helpu i ddylanwadu ar y modd yr ydym yn paratoui i ddatblygu Datganiadau Ardal, sy'n un o ofynion Deddf yr Amgylchedd. Yn y dyfodol bydd Datganiadau Ardal yn helpu i gyflawni Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, drwy nodi blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a'n helpu i gynllunio a blaenoriaethu mewn cydweithrediad ar lefel leol.

Yn y cyfamser, mae CNC yn parhau i weithio ar y cyd â phartneriaid yn y Rhondda (a'r Fwrdeistref Sirol ehangach) i ddatblygu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y Treial.



Nigel Pugh, ([www.nigelpugh.co.uk](http://www.nigelpugh.co.uk))

## 5. Crynodeb o brosiectau a gyflwynwyd drwy gyfrwng Treial y Rhondda

Dyrannwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i dair ardal treial (Rhondda, Dyfi a Thawe) yn 2014 ar gyfer gweithgareddau / prosiectau sy'n darparu'r manteision ehangaf posibl, ac sy'n helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o agweddau ymarferol a gweithredol rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Isod ceir diweddariad cryno o rai o'r prosiectau:



### Llethrau Iach: gweithio gyda phartneriaid i daclo tanau gwyllt a gwella cynefinoedd y llethrau

- Rhan-ariannwyd Swyddog Prosiect i gydlynu prosiect y 'Llethrau Iach'.
- Sefydlwyd grŵp partneriaeth newydd (CNC, Tân ac Achub De Cymru Gwasanaeth, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Rhondda Cynon Taf ac eraill).
- Dull newydd a ffocws ar gymryd ymagwedd gydgyssylltiedig yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth a thechnegau rheoli tir rhagweithiol i helpu i daclo tanau gwyllt.
- Blaenoriaethu manwl ar safleoedd ar gyfer rheoli tir yn rhagweithiol.



### Buddsoddiad yn Llanwynno: Pobl yn elwa o fod yn yr awyr agored

- Buddsoddiad mewn seilwaith hamdden, gan gynnwys giatiaiu, byrddau picnic, llwybr newydd a gwaith clirio.
- Buddsoddiad yng Nghanolfan Awyr Agored Daerwynno (cyflenwad ynni adnewyddadwy ac offer dysgu yn yr awyr agored i blant).
- Gosod cownteri ceir / pobl i adeiladu sylfaen o dystiolaeth o ddefnydd.
- I'w gadarnhau Cynllun Mynediad a Hamdden ar gyfer Llanwynno.



### Gweithio gyda natur i helpu i adfer yr amgylchedd dŵr naturiol

- Gaeaf 2015-16: Adfer mawndir ar stad a reolir CNC ger Cwmparc i leihau perygl llifogydd, storio carbon a manteision i fioamrywiaeth.
- Haf 2015: Malurion pren mawr wedi'u gosod yn y sianel i leihau ynni'r afon, trapio malurion a gwaddodion i helpu i adfer gwely'r afon ar gyfer bywyd gwyllt.
- Gwanwyn 2015: Gosod gorsaf monitro lefel / llif yr afon yn 'fyw'.



### **Creu manau diogel, iach a bywiog i bobl eu mwynhau**

- Gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ddeall yn well yr heriau, costau, effeithiau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. A nodi cyfleoedd i gydweithio'n well i helpu i ymdrin â'r heriau.
- Datblygu ymagwedd gyda phartneriaid i helpu i ddeall y problemau i baratoi agwedd gyfannol at droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar dir sy'n eiddo cyhoeddus.
- Bwydo i mewn i Adolygiad Rheoli Digwyddiadau CNC fel bod achosion o droseddau ar stad a reolir CNC yn cael eu dal ac y gweithredir arnynt yn gyson ledled Cymru.
- Canolbwyntio ar waith ataliol gyda phobl ifanc er mwyn galluogi newid yn y tymor hir.



### **Gwarchodfa Natur Llyn Fach**

- Prosiect partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru (YNDGC) i greu gwarchodfa natur yng Nghwm Rhondda, ar stad a reolir CNC.
- Safle: SSSI dynodedig mewn cyflwr anffafriol. Mae nifer o rywogaethau â blaenoriaeth a warchodir yn bresennol yno: llygoden bengron y dŵr, y troellwr mawr, hebog tramor, lobelia dŵr a mwsogl clwb ffynidwydd.
- Sicrhawyd £50,000 gan YBGDGC mewn arian grant (gyda chefnogaeth CNC) i wneud gwaith adfer cynefinoedd a rheolaeth bositif ar gyfer bywyd gwyllt a sicrhau cyflwr ffafriol.



### **Pobl a'r amgylchedd**

- Hyfforddiant amgylcheddol i grwpiau cymunedol, gan gynnwys: cofnodi bioamrywiaeth, torri prysgwydd, rheoli plaladdwyr.
- Digwyddiad 'Bio-blitz' i gofnodi rhywogaethau bywyd gwyllt ar stad a reolir CNC.
- Gweithio gyda grwpiau ysgol i ddatblygu gerddi addysgu a chymunedol, rhandiroedd a chwch gwenyn.



## 6. Cyfleoedd a syniadau a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad

### Rheoli'r stad gyhoeddus ar gyfer buddion lluosog

Awgrymiadau o weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid CNC yn y Rhondda ar gyfer rheoli'r stad gyhoeddus ar gyfer buddion lluosog

<b>Strategol / polisi</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfeiriad clir a phwrpas Stad Coetir Llywodraeth Cymru (WGWE).</li> </ul>
<b>Gweithio gyda'n gilydd yn well</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Grŵp llywio rheoli tir, yn cynnwys sefydliadau allweddol yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cyflenwi rheoli tir integredig sy'n darparu buddion lluosog i bobl, yr amgylchedd a'r economi lleol.</li> <li>• Gwell cysylltiadau â'r byd academiaidd i gasglu tystiolaeth a helpu i lywio'r dull yn y dyfodol.</li> <li>• Gwell ymgysylltiad rhwng cyrff cyhoeddus a chymunedau lleol, yn enwedig lle mae grwpiau cymunedol yn dymuno rheoli ardaloedd o dir sy'n eiddo i'r cyhoedd mewn modd cynaliadwy.</li> </ul>
<b>Tystiolaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynlluniau Adnoddau Coedwig CNC i ystyried rheoli tir yn fwy priodol ar gyfer eu hardaloedd eu hunain, i sicrhau manteision ehangach.</li> <li>• Pecyn cymorth CNC 'Da i Bobl' yn cael ei ddefnyddio i nodi meysydd a chyfleoedd i gymunedau ddefnyddio SCLIC/WGWE er budd cymunedol ar raddfa fach.</li> <li>• Mapio i nodi cyfleoedd strategol ar dir sy'n eiddo cyhoeddus, o ran yr heriau lleol a chenedlaethol allweddol.</li> </ul>
<b>Asedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• CNC yn gweithio gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol i alluogi rheolaeth leol o ardaloedd o bren nad ydynt yn gynhyrchiol ar SCLIC/WGWE drwy gytundebau prydlesu / rheoli.</li> <li>• Timau a swyddogion ar draws CNC yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwell rheolaeth ar SCLIC/ WGWE i wella'r amgylchedd.</li> </ul>
<b>Cymunedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ffordd well a haws ei defnyddio i gymunedau gynnig gweithgareddau, digwyddiadau a syniadau am SCLIC/WGWE.</li> <li>• Defnyddio gwybodaeth leol i godi ymwybyddiaeth i CNC ac awdurdodau lleol am gyfleoedd i reoli tir sy'n eiddo cyhoeddus yn well, ee rheolaeth leol ar lwybrau mynediad fel cynlluniau 'mabwysiadu llwybr' ac ati.</li> </ul>

## Mae pobl yn elwa o fod yn yr awyr agored

### Awgrymiadau o weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid CNC yn y Rhondda i bobl gael budd o'r awyr agored

<p><b>Strategol / polisi</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth / menter Cymru gyfan sy'n cysylltu'r awyr agored gyda gwell iechyd.</li> <li>• Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio i gyflawni 7 nod lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gydag iechyd a'r awyr agored yn elfen allweddol.</li> </ul>
<p><b>Gweithio gyda'n gilydd yn well</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu prosiectau a gweithgareddau gweithgarwch corfforol, fel tyfu cymunedol, rhandiroedd, ymarfer corff gwyrdd, teithiau cerdded iach, digwyddiadau beicio, digwyddiadau cymunedol mewn parciau a chyfleusterau chwarae naturiol.</li> <li>• Cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'r byd academiaidd i nodi'r rhwystrau rhwng cymunedau a'u defnydd o gefn gwlad lleol.</li> <li>• CNC a phartneriaid yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Meddygon Teulu i helpu i ddatblygu hyder mewn cynlluniau atgyfeirio yn yr awyr agored.</li> <li>• Ceisio buddsoddiad a / neu gyfleoedd o'r gyllideb iechyd cyhoeddus i wella ardaloedd â'r angen mwyaf, i ddarparu atebion iechyd cost effeithiol.</li> <li>• Gwell cydlynu ar y rhwydwaith mynediad presennol rhwng sefydliadau, yn enwedig CNC, ALI a'r fforwm mynediad lleol.</li> <li>• Datblygu cyllid adnoddau awyr agored (gan gynnwys costau teithio), fel y gall pobl fynd i'r awyr agored, ac elwa ar y manteision i iechyd a lles y mae'n eu darparu.</li> <li>• Partneriaid yn cefnogi cyfleoedd i blant ryngweithio â'r amgylchedd awyr agored.</li> </ul>
<p><b>Tystiolaeth</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Deddfwriaeth newydd megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant o bosibl yn cynnig ffyrdd newydd o werthuso 'llwyddiant', 'yr hyn a wnawn', a 'chanlyniadau'.</li> <li>• Datblygu ar fentrau llwyddiannus megis Coed Actif a datblygu prosiectau newydd yn yr ardaloedd sydd fwyaf mewn angen.</li> <li>• Gweithio gyda'r sector iechyd i lunio sylfaen o dystiolaeth yn amlinellu'r manteision o fod yn yr awyr agored, a nodi atebion iechyd cost effeithiol.</li> <li>• Safoni'r gwaith o gasglu data ac offer (ee WEMWEB, Outcome Stars, EQSD) i un lle.</li> <li>• Sefydlu fframwaith monitro a gwerthuso cadarn a defnyddiol, i fod yn sail i lunio penderfyniadau yn y dyfodol.</li> <li>• Datblygu / rhannu rhwydwaith o grwpiau sefydledig yn yr awyr agored y gallai meddygon teulu gyfeirio atynt, a bod â chydlynwyr rhyngddynt i gyflenwi.</li> <li>• Defnyddio pecyn cymorth newydd CNC 'Da i Bobl' i nodi cyfleoedd yn yr ardaloedd sydd fwyaf mewn angen am fannau gwyrdd hygrych, o ansawdd da.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mwy o gydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus a'r byd academiaidd.</li> </ul>
<b>Asedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwella ansawdd, hygyrchedd ac ymwybyddiaeth o fannau naturiol mewn lleoliadau trefol a chefn gwlad i bobl eu mwynhau.</li> <li>Nodi cyfleoedd i wella a 'glasu'r' rhwydwaith teithio llesol mewn cymunedau i ddarparu dewisiadau teithio fforddiadwy ac effeithiol.</li> <li>Siop un stop ar gyfer yr holl lwybrau a mapiau i gydlynu a hyrwyddo teithiau cerdded / llwybrau awyr agored yn ardal cymoedd De Cymru.</li> <li>Adfer llwybrau presennol sydd wedi cael eu colli, yn enwedig ar SCLIC/WGWE.</li> <li>Cefnogi rhwydweithiau gwirfoddoli i sicrhau cynnydd mewn perchnogaeth leol.</li> <li>Darparu manau diogel, agored ar gyfer chwarae a chyfleoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.</li> </ul>
<b>Cymunedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Llwybrau cerdded iach, yn yr awyr agored yn cael eu hyrwyddo gan feddygon / ysbytai / deintyddion / fferyllfeydd, a gwell cyfeirio at gymunedau.</li> <li>Annog perchnogaeth leol o ardaloedd awyr agored lle bo modd.</li> <li>Archwilio ymagwedd sy'n seiliedig ar dechnoleg i helpu oedolion a phlant gysylltu â'r awyr agored.</li> <li>Cymunedau yn 'Mabwysiadu cae / mynydd' i helpu i feithrin balchder a pherchnogaeth leol o dirweddau.</li> <li>Helpu i ddatblygu a chefnogi prosiectau gweithgaredd corfforol a gweithgareddau, megis tyfu cymunedol, rhandiroedd, campfeydd gwyrdd / ymarfer corff, teithiau cerdded iach, digwyddiadau beicio, digwyddiadau cymunedol mewn parciau a chyfleusterau chwarae naturiol.</li> </ul>

## Creu manau diogel, iach a gwydn i bobl eu defnyddio a'u mwynhau

### Awgrymiadau gan weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid CNC yn y Rhondda ar gyfer creu lleoedd diogel, iach a gwydn i bobl eu defnyddio a'u mwynhau

<b>Strategol / polisi</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Newidiadau polisi Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i systemau draenio cynaliadwy (SuDS) fod yn orfodol i bob datblygiad newydd, nid dim ond yn ymgynghorol.</li> <li>Cynllunio a datblygu yn weithredol yn ceisio gwella manau gwyrdd lleol (a chysylltedd), lle bo modd.</li> <li>Hyrwyddo safonau draeniad (SuDS) cynaliadwy gwirfoddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygwyr ac adeiladwyr.</li> </ul>
<b>Gweithio gyda'n gilydd yn well</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i chwalu'r rhwystrau (canfyddedig a gwirioneddol) i gymunedau gael mynediad at eu hamgylchedd lleol er mwyn helpu i gynyddu defnydd lleol.</li> <li>Codi ymwybyddiaeth am gymunedau sy'n adrodd am droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy ffonio 101.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r lleoedd o'u hamgylch mewn ffordd gydlynol, a chynnwys cymunedau (yn enwedig plant a phobl ifanc) yn y gwaith o gynllunio a dylunio cynlluniau lleol i helpu i annog balchder a pherchnogaeth leol.</li> <li>• Cefnogi, uwchsgilio a hyfforddi grwpiau cymunedol / gwirfoddol i'w helpu i gyflawni mwy. Gwneud y defnydd gorau o selogion lleol sy'n bodoli mewn cymunedau yn y Rhondda i annog pobl i dreulio amser yn yr awyr agored.</li> <li>• CNC: mwy o ffocws ar ganlyniadau (a herio ei ddiwylliant gwrth risg tybiedig) er mwyn helpu i ymdrin â mater atebolrwydd (fel rheolwr tir) a allai atal cyfleoedd rhag cael eu gwireddu.</li> <li>• Ymgysylltu cadarnhaol gyda chymunedau i gyflwyno neges y gellir cael mynediad i'r awyr agored a'i fwynhau gan y gymuned gyfan.</li> <li>• Mae hinsawdd o lynder yn golygu bod rhaid i bartneriaid allweddol weithio gyda'i gilydd yn well, gan rannu dysgu ac adnoddau i helpu i ymdrin â a lleihau CASB.</li> <li>• Partneriaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau Seilwaith Gwyrdd, i ddatblygu, gwella a rheoli rhwydwaith cysylltiedig o fannau gwyrdd o ansawdd uchel sy'n darparu amrywiaeth eang o fuddion.</li> <li>• Archwilio cyfleoedd ariannu cyhoeddus, preifat a rhai a arweinir gan y gymuned ar gyfer seilwaith gwyrdd.</li> <li>• Partneriaid yn ystyried atebion cynaliadwy i erydu pridd a glannau'r afon, gan weithio gyda natur i adfer afonydd, rheoli llifogydd a gwella bioamrywiaeth.</li> </ul>
<b>Tystiolaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Deall costau presennol CASB, a datblygu'r achos dros atal fel arbediad.</li> <li>• Nodi cymunedau a allai fod yn y perygl mwyaf o effeithiau newid yn yr hinsawdd, a nodi cyfleoedd i addasu gan ddefnyddio'r amgylchedd naturiol i leihau a rheoli effeithiau a risgiau.</li> <li>• Defnyddio pecyn cymorth CNC yn 'Da i Bobl' i helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwell seilwaith gwyrdd yn yr ardaloedd sydd fwyaf mewn angen.</li> </ul>
<b>Asedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyrff cyhoeddus yn cefnogi cyfleoedd i gynyddu perchnogaeth leol o asedau lleol. Annog defnydd cadarnhaol, ee y cynllun 'Mabwysiadu llwybr'.</li> <li>• Gwella arwyddion a hygyrchedd ar SCLLC/WGWE i greu naws mwy croesawgar, gan annog defnydd lleol.</li> </ul>
<b>Cymunedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mwy o adrodd am droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol - adrodd digwyddiadau drwy ffonio 101.</li> </ul>

## Gweithio gyda natur i helpu i adfer yr amgylchedd dŵr naturiol

### Awgrymiadau gan weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid CNC yn y Rhondda ar gyfer gweithio gyda natur i helpu i adfer yr amgylchedd dŵr naturiol

<p><b>Strategol / polisi</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i systemau draenio cynaliadwy (SuDS) fod yn orfodol i bob datblygiad newydd, nid dim ond yn wirfoddol.</li> <li>• Yn y cyfamser, hyrwyddo'r safonau draenio cynaliadwy gwirfoddol i ddatblygwyr ac adeiladwyr, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016.</li> <li>• Dylanwadu ar y broses gynllunio i annog y defnydd o dechnegau seilwaith gwyrdd profedig megis toeau gwyrdd, SUDS trefol neu goed trefol.</li> <li>• Mae cynllunio a datblygu yn weithredol yn ceisio gwella manau gwyrdd lleol (a chysylltedd), lle bo modd.</li> <li>• CNC ac awdurdodau lleol yn darparu atebion cynaliadwy i erydu pridd a glannau afonydd lle y bo'n briodol, gan weithio gyda natur i adfer afonydd, rheoli llifogydd a gwella bioamrywiaeth.</li> </ul>
<p><b>Gweithio gyda'n gilydd yn well</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• CNC a'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i nodi a threialu technegau rheoli llifogydd naturiol sy'n storio ac yn gwanhau dŵr, yn cynyddu ymdreiddiad drwy reoli tir ac yn arafu llif y dŵr, mewn ardaloedd sydd yn y perygl fwyaf.</li> <li>• Nodi cyfuniad o dechnegau seilwaith gwyrdd i daclo dŵr ffo trefol a llifogydd dŵr wyneb, a helpu i atal gorlwytho systemau carthffosiaeth sy'n bodoli eisoes.</li> <li>• Archwilio cyfleoedd cyllido (cyhoeddus, preifat ac a arweinir gan y gymuned) ar gyfer seilwaith gwyrdd / technegau cynlluniau SuDS.</li> <li>• Gwella seilwaith sy'n bodoli'n barod (gan gynnwys Gorlifiadau Carthffosydd Cyfun, cylfatau ac ati), ee y gwaith a welwyd yn Llanelli a Greener Grangetown.</li> <li>• Ystyried newidiadau i ddefnydd tir a rheolaeth i helpu i adfer hydroleg yr ardal.</li> <li>• Buddsoddi mewn adfer cynefinoedd i leihau dŵr ffo ac annog ymdreiddiad y pridd (coetiroedd, gwrychoedd a glaswelltir corsiog).</li> </ul>
<p><b>Tystiolaeth</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Targedu cymunedau sydd mewn perygl sylweddol o lifogydd, ynghyd â data am ansawdd dŵr gwael i nodi cyfleoedd i fyny'r afon.</li> <li>• Mae Cynlluniau Adnoddau Coedwig CNC yn ymgorffori mesurau i helpu i storio mwy o ddŵr, cyflawni yn erbyn cyfarwydddebau Ewropeaidd, a gwella cynefinoedd. Enghreifftiau: sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer ailgoedwigo brodorol y bryniau, gyda SUDS naturiol a thechnegau storio dŵr wedi eu hadeiladu i mewn i gynlluniau 'coup'; plannu rhigolau coetiroedd neu adfywio naturiol; adfer a chreu gwlyptiroedd yr ucheldir; rheoli erydiad ac annog malurion coediog mawr mewn planhigfeydd.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi ardaloedd ar gyfer storio dŵr, trwy greu gwlyptiroedd, pyllau, SuDS.</li> </ul>
<b>Asedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adfer yr ucheldir / ardaloedd o fawn wedi eu coedwigo ar draws y Rhondda er mwyn helpu i leihau llifogydd, gwella cynefinoedd a storio carbon.</li> <li>• Cynlluniau buddsoddi a rheoli asedau yn mynd i'r afael â chamgysylltiadau.</li> </ul>
<b>Cymunedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mwy o ymwybyddiaeth o berygl llifogydd mewn cymunedau, a'r camau y gallant eu cymryd i helpu i reoli'r risg / canlyniadau.</li> </ul>

## Newid canfyddiadau

### Awgrymiadau gan weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid CNC yn y Rhondda i helpu i newid canfyddiadau

<b>Strategol / polisi</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu gweledigaeth feiddgar ar gyfer yr ardal gyda neges newydd.</li> </ul>
<b>Gweithio gyda'n gilydd yn well</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnwys entrepreneuriaid, cysylltwyr cymunedol, cymdeithasau lleol a busnesau (gan gynnwys caffis lleol, busnesau gwely a brecwast, siopau) yn y drafodaeth.</li> <li>• Integreiddio strategaeth cyfryngau cymdeithasol graff ar gyfer hyrwyddo asedau naturiol rhagorol yr ardal. Annog straeon newyddion cadarnhaol.</li> <li>• Ymdrin â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol</li> <li>• Straeon newyddion cadarnhaol.</li> <li>• Mae gan CNC gydlynwyr i weithio'n effeithiol gyda chymunedau i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl i bobl leol a'r amgylchedd.</li> </ul>
<b>Tystiolaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu sylfaen o dystiolaeth am niferoedd y defnyddwyr hamdden.</li> </ul>
<b>Asedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella seilwaith gwyrdd i wella ansawdd mynediad a phrofiad, ee llwybr cerdded/ beicio wedi eu cysylltu trwy'r Rhondda Fawr.</li> <li>• Gweithio gyda, a chefnogi syniadau a mentrau lleol sy'n gweithio gyda, ac yn gwella asedau naturiol yr ardal.</li> <li>• Canolbwyntio ar bwyntiau gwerthu unigryw'r ardal.</li> <li>• Codi ymwybyddiaeth o 'emau cudd' lleol.</li> </ul>
<b>Cymunedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod manteision economaidd cynigion a chynlluniau yn mynd yn ôl i'r gymuned.</li> <li>• Cynyddu hyder mewn cymunedau ynghylch eu man gwyrdd lleol.</li> <li>• Mabwysiadu caeau / mynyddoedd / coetiroedd lleol.</li> <li>• Mwy o ymwybyddiaeth mewn cymunedau am eu hamgylchedd lleol.</li> </ul>

## Adferiad natur

### Awgrymiadau gan weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid CNC yn y Rhondda er mwyn helpu natur i adfer

<b>Strategol / polisi</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweledigaeth feiddgar, ysbrydoledig i helpu partneriaid i gyflenwi ar raddfa tirwedd.</li> </ul>
<b>Gweithio gyda'n gilydd yn well</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI) fel rhwydwaith sefydledig presennol gyda dylanwad pellgyrhaeddol a phrofiad o ddarparu.</li> <li>Gwelliannau a meysydd allweddol i'w nodi trwy broses Cynllunio Adnoddau Coedwig CNC. Bydd hyn yn cyfrannu at feysydd allweddol ar gyfer cysylltedd, ond hefyd at adfer cynefinoedd.</li> </ul>
<b>Tystiolaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio mapio cysylltedd i nodi cyfleoedd ar gyfer Cynlluniau Adnoddau Coedwig a datblygu a chynllunio, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol.</li> </ul>
<b>Asedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodi safleoedd 'SINC' a chyfleoedd i ymgymryd â rheolaeth. Cyfleoedd gwirfoddoli da ar gyfer dyddiau o wyliau amgylcheddol CNC (a busnesau eraill) i ymgymryd â gwaith amgylcheddol er budd integriti'r brand. Gellid sefydlu cynllun i rannu'r sgiliau hyn.</li> </ul>
<b>Cymunedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfleoedd gwirfoddoli cymunedol ar gyfer gwaith cadwraeth.</li> </ul>

## Gweithio gyda'n gilydd yn well

### Awgrymiadau gan weithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid CNC yn y Rhondda i helpu sefydliadau a chymunedau gydweithio'n well:

<b>Strategol / polisi</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i bartneriaid yn cydweithio â chymunedau, yn rhannu adnoddau / tystiolaeth / arbenigedd sy'n helpu i gyflwyno manteision lluosog.</li> </ul>
<b>Tystiolaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cyrff cyhoeddus yn rhannu tystiolaeth. Un lle ar gyfer data.</li> </ul>
<b>Asedau a chymunedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda, a chefnogi syniadau a mentrau lleol sy'n gweithio gyda, ac yn gwella asedau naturiol yr ardal.</li> <li>Annog perchnogaeth leol o ardaloedd awyr agored lle bo modd.</li> </ul>
<b>Cymunedau lleol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Archwilio cyfleoedd i wirfoddoli yn y gymuned ar gyfer gwaith cadwraeth.</li> </ul>

## Cyfeiriadau

<sup>i</sup> Kuo (2015): How might contact with nature promote human health? *Frontiers in Psychology*, 2015; 6 DOI: 10.3389/fpsyg.2015.01093.

<sup>ii</sup> The UK National Ecosystem Assessment (UK NEA): <http://www.teebweb.org/>

- 
- <sup>iii</sup> Yr Adran Iechyd (2010): Healthy Lives, Healthy People: Our Strategy for public health in England.
- <sup>iv</sup> Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Cynllun Integredig Sengl 2013-14. Ar-lein yn: <http://www.rctcbc.gov.uk/EN/GetInvolved/Consultations/Singleintegratedplan.aspx>
- <sup>v</sup> RSPB (2013) Connecting with Nature. Ar gael yn: [www.rspb.org.uk/connectionmeasure](http://www.rspb.org.uk/connectionmeasure)
- <sup>vi</sup> Chwarae Cymru (2015) – Why playing matters and what we can all do about it.
- <sup>vii</sup> Wolfe and Mennis (2012): Does vegetation encourage or suppress urban crime? Evidence from Philadelphia, PA, Landscape and Urban Planning 2012 (2-4: 112-122).
- <sup>viii</sup> Ffynhonnell: <http://thelandtrust.org.uk/charitable-aims/thebenefits/>
- <sup>ix</sup> Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, 2009 (Fersiwn 2), Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Taf ac Elái.
- <sup>x</sup> Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, 2009 (Fersiwn 2), Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Taf ac Elái.
- <sup>xi</sup> Ffynhonnell: <http://www.theguardian.com/environment/2015/dec/28/uk-floods-costs-financial-ruin>
- <sup>xii</sup> Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, 2009 (Fersiwn 2), Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Taf ac Elái.
- <sup>xiii</sup> (Jan 2016) - Asiantaeth yr Amgylchedd: Multiple benefits of river and wetland restoration', Driver, Alastair.
- <sup>xiv</sup> Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cynllun Rheoli Cyrchfannau, 2014-2020.
- <sup>xv</sup> The London School of Economics and Political Science, 2011.
- <sup>xvi</sup> Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru.
- <sup>xvii</sup> Burns F, Eaton MA, Gregory RD, et al. (2013) Adroddiad ar Gyflwr Natur. The State of Nature Partnership.